

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion i'r canllawiau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Fersiwn Terfynol, Tachwedd 2021

Dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Tom Bajjada, Nick Morgan / Miller Research (UK) Ltd.

Meurig Roberts



Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Tom Bajjada

tom@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad/Cefndir	1
2.	Gweithdai ymgynghori.....	2
	Trosolwg o'r gweithdai.....	2
	Cyflwyno'r gweithdai	3
	Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	4
	Maes 1 – Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau ...	5
	Maes 2 – Deall iechyd rhywiol a llesiant.....	7
	Maes 3 – Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth.....	10
3.	Gwybodaeth Ychwanegol.....	14
	Cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	14
	Sut yr addysgir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	14
	Atodiad A – Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb	16
	Atodiad B – Maes 1 – Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau	17
	Atodiad C – Maes 2 – Deall iechyd rhywiol a lles	18
	Atodiad D – Maes 3 – Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth	19
	Atodiad E – Gweithdy Ysgol Gynradd	21

Rhestr Tablau

Tabl 1: Rhestr o weithdai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gynhaliwyd .3

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 1	6
Ffigur 2: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 2	10
Ffigur 3: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 3	13

Dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
CWRE	Gyrfaodedd a Phrofiadau Seiliedig ar Waith
EOTAS	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
RSE	Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
UNCRC	Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Cyhoeddwyd Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020, a chynhaliwyd ymgynghoriadau ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm rhwng Mai a Gorffennaf 2021. Cyn ei gyhoeddi, bu'r Fframwaith yn destun ymgynghori eang a helaeth. Roedd adborth a dderbyniwyd yn rhoi amcan o ran pa ganllawiau ychwanegol penodol y byddai ar ysgolion a lleoliadau addysgol eraill eu hangen er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm yn llwyddiannus – ac roedd hyn yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 1.2 Cyd-ddatblygwyd y drafft Cod a'r Canllawiau ACR ychwanegol gydag ymarferwyr, rhanddeiliaid ac arbenigwyr ac aeth allan am adborth ac ymgynghoriad pellach rhwng Mai a Gorffennaf 2021. Mae'r cyfnod adborth ac ymgynghori yn cynnig cyfle hanfodol i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at gefnogi datblygiad y canllawiau.
- 1.3 Comisiynwyd Miller Research, ar y cyd â Meurig Roberts ac Old Bell 3, i gynnal ymchwil ansoddol gyda phlant a phobl ifanc er mwyn casglu adborth ar y ddogfen ganllaw ddrafft. Roedd yr ymchwil ar ffurf nifer o weithdai gyda phlant a phobl ifanc wedi'i hwyluso gan y tîm ymchwil. Cyflwynir canfyddiadau o'r gweithdai hynny yn yr adroddiad hwn.

2. Gweithdai ymgynghori

Trosolwg o'r gweithdai

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o bum gweithdy a gynhaliwyd rhwng 30 Mehefin a 14 Gorffennaf 2021. Roedd chweched gweithdy wedi cael ei drefnu, ond bu'n rhaid i drefnwyr y grŵp dynnu'n ôl ar fyr rybudd. Daeth plant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru i'r gweithdai ac fe'u hwyluswyd gan Miller Research a Meurig Roberts. Roedd oedolyn cyfrifol (gweithiwr ieuenctid neu athro yn y mwyafrif o achosion) yn bresennol yn y gweithdai i sicrhau cynhwysiant a diogelwch cyfranogwyr, ac i sicrhau y byddai cymorth ar gael iddynt ar ôl y gweithdy pe bai unrhyw faterion wedi codi.
- 2.2 Roedd lleoliadau'r gweithdai yn amrywio, gyda thri'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb a'r ddau arall yn rhithiol trwy Microsoft Teams. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys aelodau o grwpiau ieuenctid o bob rhan o Gymru, ynghyd â disgyblion o ysgol gynradd ac ysgol uwchradd. Roedd hyn yn sicrhau bod y gweithdai'n cynnwys amrywiaeth o blant a phobl ifanc ar draws gwahanol grwpiau oedran a lleoliadau addysgol. Bu cyfanswm o 52 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y gweithdai.

Tabl 1: Rhestr o weithdai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a gynhaliwyd

Gweithdy	Dyddiad	Grŵp Targed	Fformat
1	30 Mehefin	Ysgol Uwchradd – cyngor Iechyd a Lles yr ysgol	Wyneb yn wyneb
2	7 Gorffennaf	Grŵp leuenctid	Rhithiol
3	12 Gorffennaf	Grŵp leuenctid	Wyneb yn wyneb
4	13 Gorffennaf	Ysgol Gynradd – disgyblion blwyddyn 5 a 6	Wyneb yn wyneb
5	14 Gorffennaf	Grŵp leuenctid	Rhithiol

Cyflwyno'r gweithdai

- 2.3 Roedd y sesiynau tua awr o hyd, gyda'r pynciau a drafodwyd yn cynnwys sawl maes, megis diffinio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel y'i nodir yn y canllawiau drafft a'r Cod, a thri maes Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; *datblygu a meithrin hunaniaeth a meithrin cydberthnasau, deall iechyd rhywiol a lles a meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth*.
- 2.4 I'r rheini a oedd yn 12 oed a throsodd, dyranwyd cyfnod o amser i gyfranogwyr ymgyswrtu â'r cynnwys, gan ddilyn hyn gyda chyfle i ofyn cwestiynau i helpu eu dealltwriaeth. Gofynnwyd i gyfranogwyr wedyn roi sylwadau ar destunau rhagarweiniol y meysydd, ochr yn ochr â'r wybodaeth yn y tablau sy'n nodi'r cynnwys i'w addysgu gan ymarferwyr. Roedd y tabl wedi'i hollti'n ddwy golofn ar sail categori oedran: 'Blynyddoedd datblygiad' (tua 8-11 oed) a 'Llencyndod' (tua

12-16 oed) a oedd yn eu helpu i weld y dilyniant. Ychwanegwyd y llythrennau A, B, C a D at y testun ym mhob blwch, a oedd yn helpu gyda thrafod y cynnwys o fewn pob un ohonynt. Lle'r oedd amser yn caniatáu, gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd osod y blychau mewn trefn ar sail y cynnwys a oedd fwyaf perthnasol yn eu barn hwy i'r hyn y dylid ei addysgu.

- 2.5 I'r gwaith gyda phlant iau, rhoddwyd cyfle inni hwyluso gweithdy gyda grŵp o 15 o ddysgwyr o flynyddoedd 5 a 6. Cynhaliwyd trafodaethau llawn gyda'r ysgol ynghylch y fethodoleg a'r dull. Cynlluniwyd y gweithdy i sicrhau ei fod yn gydnaws â'r rhaglen "Tyfu i Fyny", sef y fframwaith a ddefnyddir gan yr ysgol i gyflwyno ei rhaglen iechyd rhywiol a lles. Cysylltwyd â rhieni hefyd er mwyn sicrhau eu bod yn hapus i'w plant fod yn cymryd rhan.

Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- 2.6 Pan ofynnwyd iddynt ddarllen y diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, roedd rhywfaint o ddryswch ymysg plant a phobl ifanc gyda rhai yn credu bod y talfyriad Saesneg, RSE, yn cyfeirio at addysg grefyddol. Mynegwyd teimlad hefyd na roddwyd digon o esboniad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a rhan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ymwneud â hynny.
- 2.7 Er bod cydnabyddiaeth bod y canllawiau'n anelu at ymarferwyr sy'n gweithredu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, teimlai cyfranogwyr mewn un gweithdy penodol fod amwysedd ynghylch y term 'cwricwlwm seiliedig ar degwch' a beth oedd hyn yn ei olygu'n ymarferol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod grwpiau eraill yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol. Roedd ansicrwydd hefyd ynghylch ystyr yr ymadrodd 'eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill.'¹

¹ Y frawddeg lawn sy'n cyfeirio at y gair 'eirioli' o fewn diffiniad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb: "Dylid arfogi a grymuso dysgwyr i geisio cymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill."

- 2.8 Ar y llaw arall, roedd plant a phobl ifanc ar draws y grwpiau yn ymateb yn gadarnhaol i'r derminoleg a nodir yn ail baragraff y diffiniad (gweler Atodiad A). Roedd hyn yn cynnwys y cyfeiriad o sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio bywydau pobl eraill a sut i geisio cymorth i eraill, yn ogystal â hwy eu hunain. Roedd y gair 'grymuso' yn cael ei groesawu.
- 2.9 Yn gyffredinol, roedd consensws ar draws y gweithdai fod y diffiniad drafft o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn foddhaol a chryno, er bod rhywfaint o ddryswch ynghylch geiriau ac ystyron unigol.

Maes 1 – Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau

Trafod testun rhagarweiniol y Canllawiau drafft

- 2.10 Pan ofynnwyd iddynt ddarllen testun rhagarweiniol Maes 1, teimlai plant a phobl ifanc fod y cynnwys yn rhy amleiriog gyda gormod o jargon a'i fod yn anodd ei ddeall. Yn ogystal, dywedwyd y gellid bod yn fwy penodol a rhoi enghreifftiau gwirioneddol yn y testun. Un enghraifft o'r fath a godwyd oedd y cyfeiriad yn y pedwerydd paragraff at helpu dysgwyr i ddeall sut mae hunaniaeth ac unigoliaeth yn dewis dros amser.
- 2.11 Fel gyda diffiniad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, roedd plant a phobl ifanc yn ei chael yn anodd deall ystyr rhai termau ac ymadroddion fel 'cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu'. Er hynny, roedd cydnabyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc fod testun y Maes yn amlygu sawl agwedd ynghylch Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb na roddwyd sylw blaenorol iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys delwedd gorfforol ac amrywiaeth ddiwylliannol.
- 2.12 Teimlai un grŵp ei bod yn bwysig, er bod y meysydd yn dangos dilyniant, y dylid ailedrych ar rai pynciau (ee glasoed) a fyddai'n cael ei addysgu hyd at 11 oed, fel y gallai dysgwyr adnewyddu eu gwybodaeth o'r hyn a ddysgwyd iddynt yn yr ysgol gynradd.

- 2.13 Roedd plant a phobl ifanc yn ymateb yn gadarnhaol i gynnwys amrywiaeth yn y testun, oherwydd eu bod, ar sail eu profiad yn y gorffennol, yn teimlo na fyddai hyn yn cael sylw o angenrheidrwydd gan ymarferwyr oni bai fod cyfeiriad penodol ato yn y canllawiau. Cafodd ysgolion crefyddol eu crybwyll gan sawl grŵp fel enghraifft lle gallai hyn fod yn gyffredin.
- 2.14 Teimlai un o'r grwpiau y dylid cyflawni mwy o addysgu rhagarweiniol ar faterion LHDTTC+ mewn ysgolion cynradd yn sgil y newidiadau mewn aeddfedrwydd dysgwyr ar yr oedran hwnnw.
- 2.15 O'r gwaith a gynhyrchwyd gan y dysgwyr cynradd ar y dalennau gwaith (gweler Atodiad E am y dull), roeddent yn nodi amrywiaeth o faterion y teimlent ei bod yn bwysig iddynt gael eu cynnwys yn y maes hwn. Mae'r geiriau/ymadroddion a gynhyrchwyd gan y dysgwyr yn cyfateb yn agos â'r nod a'r cynnwys a amlinellir yn y maes hwn ar gyfer plant 8-11 oed o ran cydberthnasau cadarnhaol, byw mewn cymdeithas amrywiol a normau cymdeithasol ond gyda llai o bwyslais ar normau cymdeithasol a diwylliannol.

Ffigur 1: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 1

Ni ddylent eich gorfodi chi i wneud dim byd
Byddwch yn chi eich hun
Ymddiriedaeth
Gwneud yn siŵr eich bod chi yno i'ch gilydd
Rydych yn sicr am eich hunaniaeth ac yn ei ddeall
Ni ddylech fod gyda hwy er mwyn poblogrwydd. Dylech fod
gyda nhw iddyn nhw
Deall pwysau gan gyfoedion

Trafod y Tabl

- 2.16 Roedd consensws cryf o fewn un grŵp penodol y gellid addasu'r derminoleg ym Mlwch A o dan y pennawd Llencyndod (gweler

Atodiad B), gan ddisodli'r gair 'teg' gyda 'cadarnhaol' a/neu 'iach' wrth gyfeirio at gydberthnasau cydsyniol a chariadus. Roedd cytundeb hefyd nad oedd y manylion a gynhwysir ym Mlwch A yn ddigon manwl, gan nad oedd yn ymdriin ag elfennau fel camdriniaeth domestig. Unwaith eto, roedd plant a phobl ifanc yn bryderus y byddai'r diffyg hwn mewn manylder yn agor y drws i ymarferwyr ruthro'n fras dros y pwyntiau trafod pwysig.

Maes 2 – Deall iechyd rhywiol a llesiant

Trafod testun rhagarweiniol y Canllawiau drafft

- 2.17 Yn gyffredinol, roedd plant a phobl ifanc yn feirniadol o'r wybodaeth ragarweiniol a nodir ym Maes 2. Y farn oedd bod y defnydd o'r termau 'profi' a 'chyd-destunau dilys' yn amwys a dryslyd. Y farn oedd bod y derminoleg gyffredinol a ddefnyddir yn rhan gyntaf y testun yn cynnwys gormod o jargon ac yn cyfeirio at bynciau y tu hwnt i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Er enghraifft, roedd y geiriad "sut mae pethau byw yn tyfu" yn atgoffa plant a phobl ifanc o fioleg planhigion, yn hytrach na phobl neu oedolion ifanc. Yn ogystal, dywedodd un cyfranogwr fod y term cylch bywyd yn "gwneud imi feddwl am löyn byw yn hytrach na glasoed."
- 2.18 Fodd bynnag, roedd consensws fod ail ddau baragraff y testun yn fwy ystyrlon ac yn haws eu deall, gyda phwyslais clir. Yn benodol, roedd cefnogaeth i bwyslais ar ddeall canlyniadau'r penderfyniadau a wnaed ynghylch iechyd rhywiol a chydberthnasau.

Trafod y Tabl

- 2.19 Roedd yr ymateb i'r cynnwys a nodir yn y tablau yn gefnogol, gyda phlant yn cael eu calonogi o weld rhai pynciau penodol nad oedd yn rhan o fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar hyn o bryd yn cael eu cynnwys. Roeddent yn ymateb yn gadarnhaol i'r defnydd o 'barch y naill at y llall' gan y teimlent ei fod yn hawdd ei ddeall. Ar y

llaw arall, roedd y defnydd o'r gair 'outlook' yn Saesneg yn arwain at rywfaint o ddryswch gyda rhai plant a phobl ifanc yn dweud ei fod yn gwneud iddynt feddwl am y gweinydd e-bost yn hytrach nag at agweddau penodol. Cafodd y defnydd o'r gair "cydsyniad" ei gefnogi'n gryf, gan fod hyn yn cael ei ddisgrifio fel elfen bwysig o berthynas iach. Roedd cwestiynau gan gyfranogwyr ynghylch a fyddai'r cynnwys a nodir yn y tabl ym Maes 2 yn cael ei addysgu i grwpiau o fechgyn a merched gyda'i gilydd neu ar wahân, gyda'r farn y dylai fod gyda'i gilydd.

2.20 Pan ofynnwyd iddynt osod y blychau mewn trefn blaenoriaeth o fewn y tabl, roedd plant a phobl ifanc yn aml o'r farn mai'r cynnwys a nodir ym Mlwch A yw elfen bwysicaf y Maes. Mae'n bwysig nodi fod consensws gan gyfranogwyr yr holl grwpiau y dylai adnabod nodweddion cydberthnasau cadarnhaol iach fel y nodir ym Mlwch A gael ei gydbwysu â dealltwriaeth o nodweddion cydberthnasau negyddol, camdriniol a niweidiol yn ogystal. Teimlai cyfranogwyr y byddai hyn yn gweithredu fel modd o gymharu, a'r farn oedd bod hyn yn bwysig gan y teimlent fod ar blant angen bod yn ymwybodol o'r hyn sydd afiach yn ogystal ag iach. Yn ogystal, hawliai cyfranogwyr bod addysgu ynghylch cydberthnasau cadarnhaol yn unig yn cyflwyno golwg afrealistig o gydberthnasau, gan nad yw pob cydberthynas yn gadarnhaol ac felly ni fyddai'r canllawiau'n paratoi myfyrwyr yn ddigonol ar gyfer realiti cydberthnasau negyddol yn ddiweddarach mewn bywyd. Ar y pwnc hwn, teimlai cyfranogwyr fod tueddiad i ymarferwyr fod yn nawddoglyd ac y dylid cymryd y mater yn fwy difrifol.

2.21 Yn gyffredinol, roedd cytundeb fod Blwch B ym Maes 2 yn eglur i'w ddeall. Roedd cyfranogwyr yn falch o weld y term 'ar-lein' yn ogystal ag 'all-lein' yn cael ei gynnwys gan y teimlent fod yr agwedd rithiol o gael profiadau rhywiol yn rhan bwysig o fywyd heddiw. Roedd cyfranogwyr yn crybwyll pwysigrwydd rhoi sylw i hyn yn gynharach ym mywydau plant o gymharu â dulliau blaenorol o addysgu Addysg


Cydberthynas a Rhywioldeb, o gofio bod gan blant a phobl ifanc fynediad at gynnwys ar-lein yn ifanc iawn.

- 2.22 Roedd ymateb cadarnhaol i Flwch C, gyda'r nodyn nad oedd llesiant yn cael ei grybwyll ac o bosibl y dylid ei gynnwys. Cafodd absenoldeb y cylch mislif yn y Blwch hwn hefyd ei nodi fel elfen a oedd ar goll. Roedd cyfranogwyr yn ymateb yn gadarnhaol i'r ffordd roedd hormonau yn cael eu crybwyll yn benodol ym Mlwch C, rhywbeth y teimlent nad oedd yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm blaenorol. Roedd y cyfeiriad at 'drwy gydol oedolaeth' yn cael ei weld fel rhywbeth a oedd yn teilyngu ei gynnwys gan y gall hormonau effeithio ar iechyd emosiynol a chorfforol yn barhaus.
- 2.23 Dywedodd cyfranogwyr fod cynnwys Blwch D yn hawdd ei ddeall. Yn ogystal, roedd yn cael ei farnu fel yr elfen ail bwysicaf ar ôl Blwch A. Roedd cyfranogwyr o'r farn fod cyflwyno gwybodaeth o iechyd atgenhedlu rhywiol gan gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a ffrwythlondeb yn rhan hanfodol o addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Yn benodol, roedd plant a phobl ifanc yn cyfeirio at yr angen i drafod mwy ynghylch anffrwythlondeb gwrywaidd yn wyneb y tueddiad i ganolbwyntio'n bennaf ar anffrwythlondeb benywaidd wrth drafod y pwnc.
- 2.24 O ran Blwch E, roedd cynnwys 'ffynonellau dibynadwy' yn arwyddocaol yn eu golwg, ac yn rhywbeth y teimlent fod angen ei addysgu mewn ysgolion. Roedd cyfranogwyr yn gweld hyn fel rhywbeth a oedd yn gysylltiedig â diogelwch merched a'r pwnc ehangach o gydberthnasau iach. Roedd cyfranogwyr hefyd yn dehongli cysylltiad gyda'r mater o gydsyniad ac yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu amdano wrth dyfu i fyny.
- 2.25 Wrth osod pwysigrwydd gwahanol fathau o gynnwys mewn trefn wrth addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar lefel ysgol gynradd (sef y blychau o dan y pennawd Blynnyddoedd Datblygiad, tua 8-11 oed) roedd graddau o gonsensws ymysg y cyfranogwyr. Y farn oedd bod dysgu sgiliau i reoli hunan-ofal a hylendid personol, yn ogystal ag

iechyd atgenhedlu o bwysigrwydd mawr. Yn yr un modd, roedd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mae organau atgenhedlu yn datblygu yn cael blaenoriaeth uchel. Fel gyda'r cyfnod llencyndod, roedd y cynnwys ynghylch ffynonellau dibynadwy yn cael blaenoriaeth is yn y cyfnod blynyddoedd datblygiad gan y cyfranogwyr.

- 2.26 Fel y nodwyd eisoes, cyflwynwyd y gweithdy hwn gan ystyried polisïau'r ysgol yn y maes hwn. Roedd y gwaith a gynhyrchwyd gan y dysgwyr ar beth roedd arnynt eisiau ei weld yn cael ei gynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn adlewyrchu rhai o'r pynciau o fewn pob un o'r blychau cynnwys. Roedd ymadroddion a chynnwys a gynhyrchwyd ganddynt yn nodi meysydd sy'n ymwneud â glasoed, hylendid personol, cydberthynas a gwybodaeth a chymorth. Roedd, fodd bynnag, llai yn nodi atgenhedlu, gan gynnwys iechyd mislif.

Ffigur 2: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 2



Maes 3 – Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth

Trafod testun rhagarweiniol y Canllawiau drafft

- 2.27 Teimlai cyfranogwyr fod testun rhagarweiniol Maes 3 yn gryno ac yn hawdd ei ddeall, gyda theimlad bod y cynnwys yn fwy eglur na thestun rhagarweiniol Maes 2 yn sgil brawddegau a oedd yn llifo ac

yn darllen yn well. Roedd ymateb cadarnhaol ymysg plant a phobl ifanc i derminoleg benodol a ddefnyddir yn y testun. Roedd hyn yn cynnwys y geiriad 'diogel a pharchus' a 'trais yn erbyn merched, camdriniaeth domestig a thrais rhywiol' y teimlai cyfranogwyr eu bod yn cynnwys pob ffurf o wahaniaethu. Roedd rhai cyfranogwyr yn mynegi'r awydd i gamdriniaeth domestig ddod yn gyntaf yn yr ymadrodd olaf, er mwyn amlygu ei bwysigrwydd. Teimlent hefyd fod hyn yn amlygu pwysigrwydd y cydbwysedd rhwng addysgu ar y naill law, a'r cyfle i drafod dewisiadau gyda hwy ar y llaw arall.

2.28 Er hynny, mynegwyd amheuan am eiriad teitl y maes yn Saesneg, yn benodol 'fostering', a oedd ym marn y cyfranogwyr yn rhywbeth y gellid ei ddehongli fel pe bai'n cyfeirio at blant a phobl ifanc yn y system faethu yn unig. Awgrymwyd defnyddio'r gair 'promoting' yn ei le yn Saesneg. (Nid yw'r un broblem yn codi gyda'r gair 'meithrin' yn y Gymraeg.) Yn ogystal, yn sgil hyd y testun rhagarweiniol, roedd plant a phobl ifanc yn dweud y byddai'n elwa o gael ei dorri'n fwy o baragraffau. Teimlai cyfranogwyr hefyd fod angen esbonio ystyr 'y cysyniad o gydsyniad'. Fel gyda'r ddau faes arall, beirniadwyd y defnydd o 'gyd-destunau dilys' gyda'r awgrym i ddefnyddio 'amgylchedd diogel' yn ei le.

2.29 Roedd barn y dylai Trais tuag at Ferched, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol wneud cyfeiriad penodol at y ffaith fod hyn yn fater sy'n effeithio ar ddynion yn ogystal â merched.

Trafod y Tabl

2.30 Pan ofynnwyd iddynt edrych trwy'r cynnwys a nodir yn nhabl Maes 3, teimlai plant a phobl ifanc ei fod yn gyffredinol syml ac i'r pwynt, a'i fod yn rhoi sylw i'r pethau sylfaenol roedd angen iddynt gael eu haddysgu yn yr ysgol, ac na chafodd dim byd pwysig ei hepgor. Mae Blwch A yn cyfeirio at sut rydym yn ymateb i ymddygiadau sy'n wahaniaethol, amharchus, a niweidiol. Roedd cyfranogwyr yn dehongli hyn i gynnwys gweiddi neu chwibanu ar ôl rhywun ar y stryd


ac yn cymeradwyo cynnwys hyn fel “cam yn y cyfeiriad iawn” tuag at yr angen ehangach i fod yn barchus a chodi ymwybyddiaeth ei fod yn drosedd droseddol. Ymatebwyd yn gadarnhaol i'r term 'ymdeimlad o gyfrifoldeb' yn y cyd-destun hwn.

- 2.31 Teimlai'r cyfranogwyr fod y maes y rhoddir sylw iddo ym Blwch B yn berthnasol, yn enwedig casglu'r wybodaeth gywir ar-lein yn wyneb natur annibynadwy ffynonellau o'r fath. Awgrymwyd gan gyfranogwyr y dylid newid yr ymadrodd 'dysgu amdanyn nhw eu hunain' i 'ddysgu amdanoch chi eich hun'.
- 2.32 Roedd cytundeb ar draws y gweithdai bod blychau C a D yn syml, cryno ac yn hawdd eu deall. Teimlai rhai cyfranogwyr mai Blwch C oedd y lle iawn i ychwanegu pwysigrwydd diogelu yn ystod rhyw. Dywedodd cyfranogwyr, wrth gyfeirio at Flwch D, fod diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredin ymysg dysgwyr o'u hoedran o'r deddfau sydd ar waith i'w hamddiffyn rhag gwahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, ac felly, roeddent yn falch o weld hyn yn cael ei gynnwys yn y canllawiau.
- 2.33 O ran gosod y blychau ym Maes 3 yn nhrefn blaenoriaeth, y farn oedd bod Blwch C, sef deall natur cydsyniad ym mhob cydberthynas, nid cydberthynas rywiol yn unig, o bwysigrwydd mawr, gyda chyfranogwyr yn ei ddehongli fel rhan o thema ehangach diogelu. Dywedwyd y dylai'r pwnc o sut i ddweud 'na' i ryw heb deimlad o euogrwydd gael sylw fel rhan o hyn. Roedd y pwnc hwn o gydsyniad hefyd yn cael ei weld fel agwedd bwysicaf y Maes pan gaiff ei addysgu yn y cyfnod blynyddoedd datblygiad, sy'n cynnwys elfennau megis yr hawl i breifatrwydd, ymreolaeth gorfforol, a chadw'n ddiogel.
- 2.34 Roedd cyfranogwyr yn gosod Blwch B fel yr ail bwysicaf ond yn teimlo bod angen enghreifftiau o ffynonellau o wybodaeth ddibynadwy a seiliedig ar dystiolaeth i'w darparu i blant a phobl ifanc.
- 2.35 Er bod y ddogfen yn sôn am ddeddfau a fyddai'n diogelu unigolion, teimlai cyfranogwyr nad oedd yn eglur sut y byddai unigolion yn dysgu

sgiliau a thechnegau i fynd i'r afael ag ymddygiad ymosodol a bwlio pe baent yn cael eu targedu am fod yn aelod o'r grŵp LHDTC+.

- 2.36 Pan oedd dysgwyr ysgolion cynradd yn chwilio pa gynnwys y dylid ei gynnwys yn y maes hwn, roeddent yn nodi amrywiaeth o themâu, er fel y disgrifiwyd eisoes, bod y gair “foster” yn y Saesneg wedi achosi rhywfaint o ddryswch gan y credid bod hyn yn ymwneud â phlant a oedd wedi cael eu maethu. Roedd y cynnwys roedd dysgwyr yn barnu ei fod yn berthnasol yma yn cyfateb yn amlwg â'r colofnau o gwmpas y grŵp oedran hwn o safbwynt tegwch a pharch, cymorth, diogelwch ond nid oedd dim yn ymwneud â'r pwnc o ddeddfau i ddiogelu unigolion.

Ffigur 3: Pynciau a restrir gan ddysgwyr ysgolion cynradd y byddent am gael sylw yn Llinyn 3



3. Gwybodaeth Ychwanegol

Cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- 3.1 Er mwyn darparu cyd-destun i'r wybodaeth a nodir yn y tri maes, gofynnwyd yn gyntaf i gyfranogwyr fynegi beth ddylid ei gynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fel rhan o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Cytunai cyfranogwyr fod angen mwy o amrywiaeth o fewn deunydd y pwnc y tu hwnt i heterorywioldeb, gyda hunaniaeth rhywedd a gwahanol fathau o rywioldeb yn cael eu hymgorffori i wersi. Cafodd adnabod arwyddion cydberthnasau iach ac afiach, gan gynnwys camdrin domestig, corfforol a rhywiol eu hamlygu fel rhan bwysig o ddiogelu plant a phobl ifanc.
- 3.2 Roedd plant a phobl ifanc o'r farn fod angen ailfeddwl beichiogrwydd mewn arddegau i beidio â chanolbwyntio ar ddulliau ataliol yn unig ond hefyd ar sut ac o le i dderbyn cefnogaeth a chymorth ar ôl cenhedlu. Mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, roedd cyfranogwyr yn mynegi'r angen am fwy o bwyslais ar atal cenhedlu, yn benodol y mathau o bilsen, ei sgil effeithiau posibl, a'r gwahanol resymau dros ei chymryd, er mwyn helpu pobl ei heirioli. Trafodwyd hefyd y pynciau cyffredinol o lasoed a chydsyniad, ynghyd â chwalu mythau cyffredin ar y pwnc.
- 3.3 Cais llawer o'r grwpiau oedd, unwaith y cwblheir y canllawiau a'r cod cyhoeddedig terfynol, y dylid cyhoeddi fersiwn addas i blant a phobl ifanc yr un pryd.

Sut yr addysgir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

- 3.4 Roedd plant a phobl ifanc yn amlygu eu bod, pan addysgwyd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb iddynt yn yr ysgol, wedi cael eu rhannu'n grwpiau o fechgyn a merched ar gyfer rhai elfennau o'r wers. Roedd consensws ymysg cyfranogwyr y dylai pawb o'r dysgwyr ddysgu popeth angenrheidiol waeth beth oedd eu rhywedd ac felly pryd

bynag y gweithredir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y dyfodol, na ddylid rhannu grwpiau.

- 3.5 O safwynt cyflwyno, teimlai cyfranogwyr fod angen i ddynnid o ymarferwyr gael eu hyfforddi'n benodol yn y pwnc a'u bod wedyn yn addysgu pob gwers Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Teimlai cyfranogwyr fod ymarferwyr yn y gorffennol wedi bod yn anghysurus ynghylch addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac felly wedi rhuthro trwy elfennau allweddol cyfain o'r pwnc neu wedi eu hepgor yn gyfan gwbl. Wrth gyfeirio at y canllawiau, roedd cwestiynau a oeddent yn cael eu haddasu'n briodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol.
- 3.6 Drwy gydol y pandemig, roedd y cyfranogwyr wedi bod o dan yr argraff bod gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael eu hanghofio'n llwyr mewn lleoliadau ysgolion ac roeddent yn pwysleisio'r angen iddynt gael eu hail-flaenoriaethu a derbyn yr un pwysigrwydd â phynciau academiaidd eraill. Yn gyffredinol, gwnaed y sylw fod angen lledaenu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws gwersi lluosog mewn manylder yn hytrach na chael ei chyflwyno mewn un sesiwn fer.

Atodiad A – Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Canllawiau Statudol a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Cefndir

Bydd y cwricwlwm ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyflwyno o fewn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Trwy wneud hyn bydd eich ysgol yn gweithio i wella eich sefyllfa – fel y gallwch fwynhau eich hawliau yn llawn a byw mewn cymdeithasau sy'n cydnabod a pharchu'r hawliau hynny.

Diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae cwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb seiliedig ar hawliau a thegwch yn helpu sicrhau y gall pob dysgwr ddatblygu dealltwriaeth sut mae ffydd, credoau, hawliau dynol a diwylliannau pobl yn gysylltiedig â phob agwedd o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a sut y gall yr hawliau hyn gyfrannu at ryddid, urddas, llesiant a diogelwch pawb. Felly, dylai ysgolion a lleoliadau drafod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yng nghyd-destun yr Hawliau a ddiogelir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb helpu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a'r gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Dylid arfogi a grymuso dysgwyr i geisio cymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill.

Cwestiwn

Grŵp neu sefydliad.....

Ydych chi'n credu bod y diffiniad o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn glir?

Os na, ychwanegwch unrhyw beth y credwch y dylid ei gynnwys.

Atodiad B – Maes 1 – Datblygu a mynegi hunaniaeth a meithrin cydberthnasau

Mae'r maes hwn yn gosod cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu bod pobl o bob oed yn unigryw ac yn aelodau o deuluoedd, grwpiau gwahanol a chymunedau, ac ar gyfer profi beth mae hyn yn ei olygu.

Dylai dysgwyr gael y cyfle i ddeall y rolau gwahanol y gallant eu chwarae, gyda'u cyfoedion a chyda'r oedolion yn eu bywydau, i ddatblygu eu hunanhyder, i feddu ar yr hyder i siarad drostyn nhw eu hunain ac i godi eu llais o blaid eraill. Ar yr adeg briodol, dylid eu helpu i feithrin dealltwriaeth o bobl eraill a dangos empathi.

Wrth i ddysgwyr ddatblygu, gallant ddechrau ystyried sut y gall eu profiadau personol, eu hymwneud a'u perthynas ag eraill lywio a dylanwadu ar hunaniaeth pobl a phwy ydynt fel unigolion.

Yn raddol, dylai dysgwyr gael eu cefnogi i ddeall y ffordd y mae elfennau o hunaniaeth a phwy yw pobl fel unigolion, gan gynnwys amrywiaeth LHDTG+, eu rhyw, eu rhywedd a'u rhywioldeb, yn datblygu ac yn newid dros amser. Mae gallu nodi a gwerthfawrogi'r pethau sy'n cysylltu unigolion cyn bwysiced â deall y pethau sy'n ein gwneud ni'n wahanol ac yn unigryw.

Gall ymwybyddiaeth o'r ffordd rydym yn llunio barn am bobl eraill helpu i ddatblygu barn gytbwys amdanon ni ein hunain yn ogystal â dathlu amrywiaeth ymhlith eraill.

Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Sut mae dangos bod empathi, caredigrwydd a thosturi yn nodweddion allweddol ar gydberthynas gadarnhaol.	A. Nodweddion cydberthnasau teg, cydsyniol a chariadus.
Dealltwriaeth o'r hyn sy'n nodweddu natur teuluoedd gwahanol ac amrywiaeth o gydberthnasau.	B. Dealltwriaeth o bwysigrwydd cysylltiadau ag eraill a'r ffordd y maent yn helpu i ffurfio ein hunaniaeth.
Dealltwriaeth o nodweddion cymdeithas amrywiol a'r gwerthoedd / buddiannau / heriau sy'n gysylltiedig â mewn mewn cymdeithas amrywiol	C. Gwerthfawrogi cydberthnasau diogel, iach a theg mewn amrywiaeth o gyd-destunau (gan gynnwys priodas, a phob math o bartneriaeth sifil).
Ymwybyddiaeth o'r ffordd mae normau, rolau a stereoteipiau cymdeithasol a diwylliannol yn llywio canfyddiadau ynghylch delwedd corff, ymddygiad ac iechyd.	D. Dealltwriaeth am sut mae normau cymdeithasol a diwylliannol yn llywio teimladau ynghylch delwedd corff, ymddygiad ac iechyd, a strategaethau i'w gwrthweithio.
	E. Sut a pham mae agweddau at amrywiaeth yn newid (gan gynnwys amrywiaeth o ran rhywedd a rhywioldeb)

Atodiad C – Maes 2 – Deall iechyd rhywiol a lles

Mae'r maes hwn yn rhoi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu am y ffordd mae pethau byw yn tyfu, yn atgenghedlu ac yn mynd trwy gylchred bywyd.

Yn gynnar yn y datblygiad hwn, byddwch yn profi cyd-destunau ar gyfer dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal iechyd a llesiant personol,

Wrth ichi ddatblygu, dylai'r hyn a addysgir ac a ddysgir ganolbwyntio ar sut mae newidiadau corfforol yn effeithio ar eich llesiant a chydberthnasau.

Dylai ganolbwyntio hefyd ar feithrin dealltwriaeth o ganlyniadau posibl y penderfyniadau a wneir mewn perthynas ac iechyd rhywiol a chydberthnasau.

Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae organau atgenghedlu yn datblygu yn y corff dynol, a phrosesau atgenghedlu, gan gynnwys yr hyn sy'n cefnogi iechyd a llesiant mislif.	A. Sut i adnabod nodweddion ac elfennau cadarnhaol cydberthnasau iach, sy'n cynnwys parch y naill at y llall, cydsyniad; a rhannu'r un agweddau at fywyd.
Ymwybyddiaeth raddol mewn dealltwriaeth y gall datblygu cydberthnasau arwain at ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadedig, gan gynnwys all-lein ac ar-lein	B. Gwybodaeth a dealltwriaeth y gall profiadau rhywiol arwain at ganlyniadau bwriadedig ac anfwriadedig, gan gynnwys all-lein ac ar-lein.
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae glasoed yn ysgogi newidiadau corfforol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol sylweddol i bawb.	C. Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae hormonau yn parhau i effeithio ar iechyd emosiynol a chorfforol yn ystod oedolaeth.
Y sgiliau sydd eu hangen i reoli hunanofal, hylendid personol a phwysigrwydd lles mislif ac iechyd atgynhyrchiol i bawb.	D. Gwybodaeth a dealltwriaeth o achosion, symptomau ac effaith cyflyrau a salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd rhywiol ac atgynhyrchiol fel ffrwythlondeb a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a'u cysylltu ag iechyd a llesiant mislif.
Y gallu i ddeall bod llawer o ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a chymorth.	E. Y gallu i adnabod ffynonellau dibynadwy o wybodaeth a sut i geisio cymorth a hwyluso hunan-ofal.

Atodiad D – Maes 3 – Meithrin diogelwch a pharch, gwerthfawrogiad o'r person a chefnogaeth

Mae'r maes hwn yn rhoi cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu a phrofi bod angen i bawb gael gofal er mwyn tyfu a ffynnu.

Mae gan bob dysgwr yr hawl i fod yn ddiogel a chael ei barchu mewn amgylchedd sy'n darparu ar gyfer hynny. Fel dysgwyr, byddwch yn meithrin dealltwriaeth o'r effaith y mae gwahanol fathau o ymddygiad yn eu cael ar eraill – yr hyn rydych yn ei ddweud a'r hyn rydych yn ei wneud – a phwysigrwydd hunanreoleiddio er mwyn sicrhau bod hawliau pob dysgwr yn cael eu parchu.

Dylech gael eich addysgu fod gennych hawl i fod yn rhydd rhag unrhyw fath o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, yn cael ei galluogi gan oedolion y gellir ymddiried ynddynt sy'n eu cadw'n ddiogel, yn ogystal â thrwy fesurau diogelu cyfreithiol sy'n bodoli i bawb yn cynnwys ystyriaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Byddwch yn gallu deall y cysyniad o gydsyniad, ac yn teimlo'n hyderus i fanteisio ar gymorth sydd ar gael os byddwch yn pryderu am eich diogelwch. Byddwch hefyd yn datblygu'r gallu i ymddwyn mewn ffordd gefnogol a llawn parch.

Blynyddoedd datblygiad (tua 8-11 oed)	Llencyndod (tua 12-16 oed)
Dealltwriaeth o bwysigrwydd tegwch a pharch ym mhob ymddygiad rhyngpersonol gan gynnwys ymddygiad ar-lein a gwybod pryd i herio a cheisio cymorth.	A. Ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at eraill, gan gynnwys sut rydym yn ymateb i ymddygiadau sy'n wahaniaethol, amharchus a niweidiol, gan gynnwys ymddygiad ar-lein.
Sut i geisio cymorth i chi'ch hun a chynnig cymorth i eraill.	B. Y gallu i adanbod ffynonellau dibynadwy o wybodaeth sy'n seiliedig ar wybodaeth, gan gynnwys ffynonellau ar-lein, a sut i ddysgu amdanoch eich hun, ac ynghylch teimladau, cyrff a chydberthnasau ag eraill.
Dealltwriaeth o'r hawl i breifatrwydd, ymreolaeth gorfforol a phwysigrwydd cydsyniad a chadw'n ddiogel, gan gynnwys ar-lein.	C. Dealltwriaeth o natur cydsyniad mewn cydberthnasau rhywiol o fewn cyd-destunau gwahanol, gan gynnwys ar-lein
Ymwybyddiaeth fod deddfau ar waith i'n diogelu rhag	D. Dealltwriaeth o ddeddfau sydd ar waith i'n diogelu rhag pob

Dadansoddiad o ymatebion ymgynghoriad ar ganllawiau ychwanegol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

gwahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod.	math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod.
---	---

Atodiad E – Gweithdy Ysgol Gynradd

Canllawiau drafft a Chod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb y Cwricwlwm i Gymru – Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

Cefndir

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn rhoi strwythur cyfannol ar gyfer deall iechyd a lles. Elfennau hanfodol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad corfforol, iechyd meddwl a lles emosiynol a chymdeithasol

Beth yw Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb?

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddeall sut mae cydberthnasau a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Dylai dysgwyr gael eu harfogi a'u grymuso i geisio cymorth ar faterion sy'n ymwneud ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac eirioli drostyn nhw eu hunain ac eraill.

Gweithdy

Amcan

Ceisio barn disgyblion ar y meysydd pwnc y credant fod angen iddynt gael eu cynnwys yn y canllawiau newydd ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Dull

1. Ewch drwy'r cytundeb dosbarth
2. Gofynnir i ddisgyblion weithio mewn grwpiau bach o 3/4 o ran niferoedd i ymateb i'r cwestiwn canlynol.

Sgript

Rydym yn helpu Llywodraeth Cymru ac ysgolion i ysgrifennu rhai syniadau ynghylch beth y gellid ei gynnwys yn y cwricwlwm newydd am ganllawiau addysg cydberthynas a rhywioldeb.

Mae arnom eisiau ichi feddwl a dweud wrthym beth hoffech chi ei weld yn cael ei gynnwys.

Efallai ei bod eisoes wedi dysgu am rai o'r materion hyn, ond gallai eraill fod yn newydd, ac yr hoffech chi wybod mwy amdanynt.

Rhoddwyd tudalennau cylchgronau a lluniau eraill ichi y gallwch eu torri a'u glynu ar y dalennau mawr o bapur. Os nad oes llun sy'n cynrychioli'r hyn rydych yn ei feddwl, yna gallwch naill ai wneud eich llun eich hun neu ysgrifennu i lawr ar y pad gludiog a'i roi ar y ddalen.

3. Bydd pob grŵp yn edrych ar o leiaf un o'r materion canlynol:

- A. Deall eich hunan a chreu cydberthnasau cadarnhaol
 - B. Deall pwysigrwydd iechyd rhywiol a lles
 - C. Cael eich gwerthfawrogi, cadw'ch hun yn ddiogel a pharchu eraill
4. *(Yn amodol ar gytundeb yr ysgol)* Fel gweithgaredd olaf, gofynnir iddynt weithio'n unigol i gyflwyno unrhyw gwestiynau roeddent wedi meddwl amdanynt wrth wneud y gweithdy hwn ac yr hoffent ateb iddynt. Byddant yn cael eu gosod mewn blwch a'u hateb mewn sesiwn fer arall gyda'r grŵp cyn diwedd y tymor

5. Deunyddiau

Dalennau mawr o bapur, amrywiaeth o dudalennau cylchgronau, ysgrifbinnau/pensiliau, siswrn a sgwariau nodiadau gludiog.

6. Amser i'w neilltuo.

1 awr 30 munud